Newyddion y DBS

Helô a chroeso i'r rhifyn diweddaraf o Newyddion y DBS.
Mae'n flwyddyn ers  i ni lansio'r Gwasanaeth Diweddaru, a oedd yn ddatblygiad arwyddocaol i'r DBS.
I ddathlu'r garreg filltir hon, rydym wedi neilltuo'r rhan fwyaf o'r rhifyn hwn i bopeth yn ymwneud â'r Gwasanaeth Diweddaru, gan gwmpasu popeth sydd angen i chi ei wybod. Mae hyn yn cynnwys, ar ôl gwrando ar eich sylwadau, y wybodaeth bwysig ein bod yn ymestyn y cyfnod pryd y gallwch chi ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru gyda'ch tystysgrif, o 14 i 19 diwrnod calendr o'r dyddiad cyhoeddi (sydd wedi ei argraffu ar y dystysgrif).
Rydym hefyd wedi bod yn trafod eich profiadau o ddefnyddio'r gwasanaeth gyda chi, ac mae Julie Shaw, Cyfarwyddwr Vision for Education, a Janet Gerrard o The Duchess's Community High School, wedi bod yn ddigon caredig i rannu eu barn.
I gloi, dyma fy rhifyn olaf gan fy mod yn ymddeol o'r DBS ac wedi trosglwyddo'r awenau i Ian Johnston, y Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Datgeliad) newydd.
Rwy'n eich gadael gyda fy nymuniadau goraf a'r wybodaeth eich bod mewn dwylo diogel iawn.

Sue Quigley
Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Datgeliad) – ymadawol

Diolch i Sue am wneud yn siŵr bod y broses drosglwyddo'n un syml, mae busnes yn mynd yn ei flaen fel arfer. Byddwch yn dal i dderbyn yr holl ddatblygiadau gweithredol a newyddion yma – dim ond y llun ar dudalen un fydd yn newid!
Mae'r DBS yn cyflawni gwaith pwysig iawn o ran diogelu'r cyhoedd ac mae hon wir yn adeg gyffrous i fod yn ymuno, wrth i ni barhau i ddatblygu'n ffocws ar roi'r cwsmer yn gyntaf.
Cyn hyn, roeddwn yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau, yn gyfrifol am bortffolio o gartrefi gofal preswyl yn genedlaethol. Fy mhwyslais oedd gwneud yr hyn sy'n iawn i bobl oedrannus, agored i niwed yn ogystal ag ysgogi incwm, cynyddu arbedion effeithlonrwydd i'w hailfuddsoddi yn y busnes, a datblygu cynnyrch a gwasanaethau newydd i gystadlu mewn marchnad gynyddol gystadleuol.
Derbyniais y rôl hon oherwydd bod uchelgais ddi-baid y DBS i fod yn Ganolfan Ragoriaeth a'r momentwm i ysgogi newid cadarnhaol wedi creu cryn argraff arnaf.
Rwy'n falch iawn i fod wedi ymuno â sefydliad mor flaengar ac uchelgeisiol.

Ian Johnston
Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Datgeliad)

**Cynllun gweithredu**

Cyhoeddwyd ein Cynllun Strategol tair blynedd uchelgeisiol ar ein gwefan yn ystod y mis diwethaf.
Mae'r Cynllun, sy'n cynnwys y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2014-15, yn cyflwyno natur y swyddogaethau mae'r DBS yn eu cyflawni ar ran y

llywodraeth. Mae'n edrych ar y swyddogaethau hyn dros y cyfnod o dair blynedd ddilynol, ac yn disgrifio sut bydd y DBS yn ehangu ac yn datblygu'r rhain i gefnogi'r llywodraeth.
Meddai ein Prif Weithredwr, Adriènne Kelbie: "Mae'r Cynllun yn cynnwys datblygiadau mawr i'n systemau a'n gwasanaethau. Byddwn yn dal i ddatblygu a moderneiddio ein cynnyrch craidd a byddwn yn gweld ein busnes yn arallgyfeirio yn fuan. Byddwn yn hwyluso pethau i'n cwsmeriaid ac yn ein sefydlu ein hunain fel arbenigwyr o ran gwybodaeth ynglŷn ag addasrwydd mewn ymateb i anghenion y llywodraeth.
Yn ystod y tair blynedd i ddod, edrychwn ymlaen at ddatblygu ein galluoedd, ehangu ein gweithgareddau a chyflawni ein potensial fel Canolfan Ragoriaeth newydd yn ein maes."

**Gwasanaeth Diweddaru: blwyddyn yn ddiweddarach**

Flwyddyn ers i ni lansio ein Gwasanaeth Diweddaru blaenllaw, rydym yn falch iawn fod dros 187,000 o ymgeiswyr wedi tanysgrifio. Mae'n ategu'r prosesau diogelu sydd eisoes ar waith – yn y flwyddyn ddiwethaf cafwyd dros 200 o newidiadau statws tystysgrif, gan ysgogi ymgeiswyr i wneud cais am dystysgrif newydd.

Cyflawnwyd dros 216,000 o archwiliadau statws hyd yn hyn gan gyflogwyr a/neu Gyrff Cofrestredig, ac mae nifer yr archwiliadau sy'n cael eu cyflawni pob dydd yn dal i dyfu wrth i'r archwaeth am y gwasanaeth gynyddu. Mae nifer gynyddol o gyflogwyr hefyd yn gwerthfawrogi'r ffaith eu bod yn arbed amser a chostau wrth gynnal archwiliadau statws ar-lein am ddim.

Gallwch ddarllen mwy ar ein gwefan ynglŷn â phryd y dylech gyflawni archwiliadau statws a sut i wneud hyn.

Diolch i chi am ddal i roi gwybod i'ch sefydliadau cleient ynglŷn â'r gwasanaeth. Mae hyn yn golygu a gallant hwythau hefyd fanteisio arno a chyflymu eu prosesau recriwtio, sy'n rhan bwysig o'r hyn sy'n golygu bod cwsmeriaid yn fodlon ar y Gwasanaeth Diweddaru yn ôl ein hymchwil (gweler isod).

Rhoi llais i ddefnyddwyr ein Gwasanaeth Diweddaru

Yn ôl ein hymchwil diweddar, a grybwyllwyd yn rhifyn y mis diwethaf, mae'r lefelau boddhad yn galonogol – gyda'r rhan fwyaf yn nodi hwylustod ac effeithlonrwydd y gwasanaeth. Rydym eisoes yn ystyried sut i ddefnyddio eich safbwyntiau, a'r cipolwg gwerthfawr a roddwyd ar y ffactorau sy'n rhwystro cwsmeriaid rhag defnyddio'r gwasanaeth, i ddylanwadu ar ddatblygiadau yn y dyfodol. Rhagor am hyn i ddod…

Defnyddwyr gwasanaeth yn ysgogi gwelliannau

Mae ein hymgeiswyr wir yn gwerthfawrogi eich mewnbwn – gallant ymuno'n gynnar â'r Gwasanaeth Diweddaru os ydych yn rhoi gwybod iddynt amdano cyn gynted ag y maent yn gwneud cais am archwiliad DBS.

Dywedodd rhai o'r bobl a holwyd nad oedd eu cyflogwr o reidrwydd yn gwybod am y gwasanaeth a sut y gallai fod yn fanteisiol i'w sefydliad ac ymgeiswyr. Nid yw rhai ymgeiswyr yn gwybod pryd i ymuno gan gredu mai'r cyflogwr sy'n delio â'r broses. I'ch helpu i dywys ymgeiswyr trwy'r broses rydym wedi:

- dosbarthu taflenni i'w gosod mewn ffurflenni cais ac uwchlwytho templed i'n gwefan i chi ei argraffu a'i ddosbarthu'n uniongyrchol i ymgeiswyr
- paratoi detholiad o ganllawiau ar y Gwasanaeth Diweddaru ar ein gwefan
- cynnig cyngor ac arweiniad
- hyrwyddo'r gwasanaeth ac adnoddau yn Newyddion y DBS
- cysylltu â sefydliadau ynglŷn â'r cyfleuster i gynnal nifer o archwiliadau statws ar yr un pryd
- cynnwys gwybodaeth mewn cyflwyniadau allanol

Llais y Cwsmer

- Mae 72% o Gyrff Cofrestredig yn annog o leiaf rai o'r staff a chleientiaid presennol i ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru
- Mae 63% yn annog pob aelod o staff i ymuno
- Mae Cyrff Cofrestredig yn y sectorau preifat ac addysg yn fwy tebygol o argymell y gwasanaeth
- Mae 76% o'r tanysgrifwyr yn fodlon ar y gwasanaeth
- Mae 71% yn teimlo'i fod yn hawdd ei ddefnyddio
- Byddai'r rhan fwyaf o danysgrifwyr yn adnewyddu eu tanysgrifiad gan ei fod yn gwneud y broses yn symlach

Profiad Vision for Education

Mae Vision For Education, asiantaeth recriwtio athrawon, yn darparu gwasanaeth lleol a phersonol i ysgolion ac athrawon. Maent wedi defnyddio'r Gwasanaeth Diweddaru ers ei lansio ym mis Mehefin y llynedd ac wedi llwyddo i'w integreiddio i'w prosesau ac mae 92% o'u hymgeiswyr wedi tanysgrifio. Mae'r Cyfarwyddwr, Julie Shaw, yn esbonio ymhellach...

"Rydym yn gofyn i bob un o'n hymgeiswyr gofrestru â'r Gwasanaeth Diweddaru ac yn esbonio'r manteision iddynt ar adeg eu cyfweliad. Rydym yn gofalu bod yr ymgeiswyr wedi cofrestru cyn iddynt gael eu cymeradwyo i weithio, ar ôl gweld eu tystysgrif yn gyntaf. Pan fyddant yn cofrestru, rydym yn gofyn iddynt lofnodi datganiad sy'n rhoi caniatâd parhaus i ni archwilio eu cofnod gyda'r Gwasanaeth Diweddaru, ac yn eu hannog i ddewis y gwasanaeth adnewyddu awtomatig, ond wrth gwrs eu dewis personol nhw yw hynny ac fe allent benderfynu adnewyddu eu hunain. Mae'r DBS hefyd yn anfon nodyn atgoffa bedair wythnos cyn bod disgwyl iddynt adnewyddu.

Mae gennym feddalwedd yn y sefydliad sy'n archwilio cofnodion am unrhyw newidiadau yn statws ymgeiswyr sydd wedi eu clirio. Cyflawnir hyn yn wythnosol a dyma'r lefel ddiofyn safonol. Mae hyn yn golygu bod archwiliad y DBS yn gyfredol ar bob adeg.

Rydym yn dawel ein meddwl o wybod ein bod wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau diogelwch disgyblion. Mae hyn yn rhoi mwy o ryddid i ymgeiswyr chwilio am waith yn gyflym. Nid archwiliad y DBS yw'r unig offeryn diogelu ar gyfer asiantaethau, ond mae'n un grymus iawn.

Mae'r Gwasanaeth Diweddaru yn ddelfrydol i'r sector addysg oherwydd y gofynion diogelu a maint y gweithlu cyflenwi dros dro. Mae'n rhoi hyblygrwydd a dewis i ymgeiswyr o ran gwaith, ac yn sicrhau bod diogelwch plant ar frig yr agenda.

Rydym ni wedi cael problemau'n ddiweddar pan nad oedd y gwasanaeth ar gael, ond prin iawn fu'r achosion hyn ac alla' i ddim meddwl am ddim y byddwn yn ei wella. Mae ymgeiswyr yn dal ychydig yn ddryslyd o ran yr amserlen gofrestru, ond rydym yn mynd i drafferth i'w tywys a'u cefnogi trwy'r broses – mae'n werth yr ymdrech.

Rydym yn annog ymgeiswyr i adnewyddu eu tanysgrifiadau – yn wir bydd hyn yn amod er mwyn iddynt gael parhau i weithio i ni. Rydym yn bwriadu cysylltu â nhw, a gobeithio na fydd angen iddyn nhw gael archwiliad DBS arall.

Ar ôl y dysgu cychwynnol, rwy'n credu bod y gwasanaeth wedi bod yn un o'r newidiadau mwyaf dramatig a gwerthfawr i'r ffordd y mae asiantaethau'n gweithredu yn y Sector Addysg."

Mae'r Gwasanaeth Diweddaru'n ddelfrydol ar gyfer y sector addysg...

Janet Gerrard, Rheolwr Llanw a Digwyddiadau, The Duchess's Community High School:

"Mae'n rhoi cryn dipyn o dawelwch meddwl i wybod bod fy asiantaeth gyflenwi ddewisol, Vision for Education, yn gweithredu system ddiogelu mor drylwyr. Rwy'n arbennig o falch gyda system newydd y DBS a'r wybodaeth fod yr asiantaeth yn archwilio pob un o'n hathrawon yn rheolaidd trwy'r Gwasanaeth Diweddaru.
Fel ysgol, mae'n allweddol ein bod yn gwneud popeth bosibl i sicrhau bod ein myfyrwyr yn cael eu diogelu, ac mae hyn yn ffactor allweddol o ran penderfynu ar ba asiantaeth gyflenwi i'w defnyddio.

**Y Gwasanaeth Diweddaru mewn addysg**

Mae'r Adran Addysg wedi cyhoeddi canllaw statudol, 'Keeping children safe in education'.

Mae hwn yn esbonio y gall yr ysgol neu goleg archwilio statws tystysgrif ar-lein, os yw'r ymgeisydd wedi tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru, a chyda chaniatâd yr unigolyn.

Y Gwasanaeth Diweddaru mewn iechyd a gofal cymdeithasol

Mae NHS Employers wedi cyhoeddi 'An employers guide to using the DBS Update Service', sy'n esbonio nod allweddol y Gwasanaeth Diweddaru.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Thîm Canolog Cofnod Staff Electronig (ESR) y GIG i ddatblygu cyswllt dwy ffordd rhwng yr ESR a'n systemau ni. Mae'r cyswllt newydd yn ysgogi dwy swyddogaeth allweddol: diweddariadau statws a hysbysiadau gwahardd y Gwasanaeth Diweddaru.

Bydd yr ESR yn holi'n rheolaidd am statws cofnod datgelu'r DBS ac yn hysbysu deiliaid o swyddogaeth diogelu a datgeliad newydd pan fydd statws datgeliad unigolyn yn newid.

Mae hyn nawr ar gael i sefydliadau'r GIG.  Dysgwch fwy ar wefan yr ESR.

Ceisiadau neu dystysgrifau – yr amser gorau i ymuno

Mae tua 81% o danysgrifwyr yn ymuno gyda'u tystysgrifau yn hytrach nag wrth ymgeisio, ac eto mae ganddynt fwy o amser i danysgrifio wrth wneud cais am archwiliad y DBS.

Rydych chi wedi gweld nad yw 14 diwrnod yn ddigon os yw ymgeiswyr eisiau ymuno gyda'u tystysgrif. Rhoddwyd rhywfaint o amser i'r gwasanaeth ddod i drefn ac i'r broses recriwtio fynd rhagddi, ac rydym wedi gwrando ar eich sylwadau. Rydym wedi gwneud newidiadau i'n system gan ymestyn y cyfnod i 19 diwrnod calendr o'r dyddiad cyhoeddi sydd wedi ei argraffu ar y dystysgrif.

Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeiswyr bod angen archwiliad cofnod troseddol, yn unol â darpariaethau deddfwriaeth gyfredol, gallwch ddweud wrthynt sut i ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru.

Rydym wedi paratoi rhestr gyfeirio a derbynneb cyfeirnod ffurflen gais ar gyfer y Gwasanaeth Diweddaru i helpu. Pryd bynnag y bo modd, rhowch gyfeirnod y ffurflen gais i'r ymgeiswyr er mwyn iddynt allu ei ddefnyddio i ymuno.

Gwneud i'r gwasanaeth weithio i'ch sefydliad

Wrth i ragor o ymgeiswyr glywed am y Gwasanaeth Diweddaru, rydych yn datblygu dulliau newydd o esblygu a bodloni eu gofynion. Gellir cynnwys y gwasanaeth yn gyflym yn eich prosesau presennol i wneud penderfyniadau ynglŷn ag addasrwydd.

Gwasanaeth Diweddaru'r DBS: Mae'r canllaw i gynnal archwiliadau statws lluosog yn esbonio sut i ddatblygu system a fydd yn eich galluogi i gynnal nifer fawr o archwiliadau statws ar yr un pryd.

Darparu gwybodaeth anghywir

Os bydd ymgeisydd yn cysylltu â ni ynglŷn â gwall ar ei dystysgrif a'i fod yn wall a wnaed gan yr ymgeisydd neu Gorff Cofrestredig, ni fyddwn yn cyhoeddi tystysgrif newydd. Rhaid cyflwyno cais newydd.

Beth mae hyn yn ei olygu i ddefnyddwyr y Gwasanaeth Diweddaru?

Cipolwg ar y cwsmer

Dangosodd arolwg diweddar fod ymgeiswyr sy'n gweithio ym maes gofal yn fwy tebygol o fod wedi eu hannog i ymuno gan eu cyflogwr na'r cyfartaledd; roedd y rhai sy'n gweithio ym maes addysg yn llai tebygol.

Os yw tystysgrif anghywir wedi ei chysylltu â'r Gwasanaeth Diweddaru, byddwn yn ei datgysylltu. Rhaid cyflwyno cais newydd a chysylltu hwnnw â chyfrif y Gwasanaeth Diweddaru. Mae hyn yn golygu y bydd angen talu ffi ychwanegol ar gyfer tystysgrif newydd.

Defnydd o'r gwasanaeth yn y dyfodol

Yn ein harolwg diweddar:
Dywedodd 33% o Gyrff Cofrestredig fod ganddynt gynlluniau i gynnwys y Gwasanaeth Diweddaru yng nghontractau staff. Maent yn amrywio o ran pa mor aml y maent yn bwriadu cynnal archwiliadau, sy'n adlewyrchu hyblygrwydd y gwasanaeth, a'r ffaith y gall helpu i fodloni gofynion diogelu ac ategu prosesau recriwtio.

Wedi i'r cyfwelydd roi mwy o wybodaeth ynglŷn â'r gwasanaeth, dywedodd 38% o'r Cyrff Cofrestredig hynny nad oeddynt yn defnyddio'r gwasanaeth, y byddent yn annog ymgeiswyr i ymuno fel gofyniad o'u proses recriwtio. Mae 35% yn debygol o annog staff presennol a newydd i danysgrifio.

Mae 88% o danysgrifwyr yn debygol o adnewyddu eu tanysgrifiad, gan nodi ei fod yn gwneud y broses yn haws, bod arnynt angen ail archwiliadau a nifer o dystysgrifau, a'i fod yn arbed amser ac arian. Mae'r rhai nad ydynt yn bwriadu adnewyddu yn dweud na fydd y gwasanaeth yn ddefnyddiol iddynt yn y dyfodol.

Dywedodd 63% o'r rhai nad ydynt yn tanysgrifio y byddant yn debygol o danysgrifio ar ôl cael rhagor o wybodaeth. Mae'r rhai na fyddent yn debygol o wneud hynny, yn teimlo na fyddai'r Gwasanaeth Diweddaru yn fuddiol iddynt.

Byddai pobl yn cael eu hysgogi i ddefnyddio'r gwasanaeth yn y dyfodol pe byddai sefydliadau'n mandadu'r gwasanaeth a phe byddai'r ddarpariaeth ar gael am ddim.

Sut gallwn ni wella?

Mae'r Gwasanaeth Diweddaru wedi bod yn newid arwyddocaol ar gyfer rhai sefydliadau, ac wedi cyflwyno rhai heriau ynghyd â manteision.

Mae rhai ohonoch yn teimlo y gellir gwella'r gwasanaeth trwy gysylltu'n uniongyrchol ag ymgeiswyr ynglŷn â thanysgrifio. Rydym yn gwerthfawrogi bod cyfathrebu ag ymgeiswyr yn fater allweddol, ac mae hon yn her barhaus yr ydym yn ceisio ei threchu gan nad oes gennym ffrydiau cyfathrebu uniongyrchol ag ymgeiswyr.

Rydym eisiau ymgysylltu ag ymgeiswyr trwy ddulliau digidol gan fod ein ffrydiau ar-lein yn dod yn fwyfwy poblogaidd: roedd 50% o'r ymgeiswyr a holwyd wedi ymweld â'n gwefan a 90% o'r rhain yn fodlon ar y ddarpariaeth.

Er bod lefelau boddhad yn uchel, rydym yn dal i weithio gyda Swyddfa'r Cabinet i geisio dylanwadu ar arferion cyfeirio ar wefannau, er mwyn ymdrin ag anawsterau y mae pobl wedi'u hwynebu wrth ddefnyddio'u cyfrifon.

Rydych wedi amlygu rhai meysydd yr hoffech eu gwella – y cyfnod amser sydd ar gael i unigolion ymuno os ydynt yn defnyddio eu tystysgrif yn benodol. Mae'r erthygl 'Ceisiadau neu dystysgrifau – yr amser gorau i ymuno' yn esbonio'r manteision i ymgeiswyr o ymuno gyda rhif y ffurflen gais.

Mae rhai ohonoch yn teimlo bod y gwasanaeth yn anodd ei integreiddio i'ch prosesau. Gallai ein herthygl 'Gwneud i'r gwasanaeth weithio i'ch sefydliad' a phrofiadau Julie Shaw gyda Vision for Education eich helpu. Rydym hefyd wedi derbyn awgrymiadau ynghylch gallu ymgeiswyr i arddangos eu bod yn 'aelodau' o'r Gwasanaeth Diweddaru.

Byddech wedi hoffi cael mwy o amser i integreiddio'r gwasanaeth i'ch prosesau. Rydym wedi gwrando a, ble y bo modd, byddwn yn rhoi gwybod i chi o flaen llaw am unrhyw newidiadau, datblygiadau a chamau gweithredu yn y dyfodol.

Mae yna ganllaw ar ein gwefan a all eich helpu gydag unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r gwasanaeth.

Yn y rhifyn nesaf

Byddwn yn parhau gyda'n thema sylwadau cwsmeriaid:
Byddwn yn rhoi gwybod i chi am arolwg diweddar o ddarllenwyr Newyddion y DBS, sydd wedi dechrau dylanwadu ar sut rydym ni'n cyfathrebu â chi, yn arbennig o ran darpariaeth gwasanaeth a pherfformiad. Bydd gennym hefyd fwy i'w ddweud wrthych ynglŷn â'n hymchwil i syniadau a boddhad cwsmeriaid datgeliad.

Gobeithio bod ein harchwaeth ar gyfer ymgysylltu â chwsmeriaid yn eich calonogi – y bwriad yw rhoi llais dylanwadol i chi, ein cwsmeriaid.

**Clywed y diweddaraf**

I gael gwybodaeth am gadw'ch manylion yn gyfredol, gweler yr adran ar newid eich manylion cofrestru ar y dudalen sy'n rhoi arweiniad i gyflogwyr, neu rifyn Mai o Newyddion y DBS.

**Canllawiau prawf adnabod: nodyn i'ch atgoffa o newidiadau arfaethedig**

Y mis diwethaf, fe ddywedom wrthych ein bod wedi bod yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref i nodi newidiadau posibl i'n canllawiau prawf adnabod o 1 Gorffennaf 2014.
Yn benodol, rydym wedi bod yn edrych ar ddefnyddio tystysgrifau mabwysiadu a thrwyddedau gyrru'r UE. Mae'r canllawiau wedi eu haddasu i nodi y bydd tystysgrifau mabwysiadu yn cael eu trin yn yr un modd â thystysgrif geni wreiddiol, o 1 Gorffennaf 2014, ac y bydd trwyddedau gyrru'r UE yn cael eu trin yn yr un modd â thrwyddedau gyrru o'r Deyrnas Unedig. Mae hyn yn golygu bod Tystysgrif mabwysiadu a Thrwydded yrru cerdyn â llun o'r UE nawr (o 1 Gorffennaf) yn yr un categori â'r dogfennau Grŵp 1 eraill.
Mae'r canllawiau prawf adnabod ar ein gwefan nawr wedi eu diweddaru i adlewyrchu'r newid hwn.

Os cyflwynir unrhyw newidiadau eraill i'r canllawiau, byddwn yn rhoi digon o amser i chi wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'ch dogfennau a'ch systemau.